TALIADAU AC AMODAU CYFFREDINOL

O 1 Ionawr 2005 hyd nes ceir rhybudd pellach

keyfacts

1. YR AWDURDOD GWASANAETHAU ARIANNOL (FSA)

Goruchwylydd annibynnol sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau ariannol. Yr FSA sy'n gofyn i ni roi'r ddogfen hon i chi. Defnyddiwch y wybodaeth yma i benderfynu os yw'n gwasanaethau'n addas i chi.

2. BETH RYDYN NI'N EI GYNNIG?

Dim ond ein cynhyrchion ni ar gyfer cynlluniau arian parod ar gyfer iechyd.

3. PA WASANAETH GEWCH CHI GENNYM NI?

Ni fyddwn yn rhoi cyngor nac yn argymell cynlluniau arian parod ar gyfer iechyd i chi. Chi fydd yn penderfynu ar y cam nesaf.

4. FAINT FYDDWCH CHI'N GORFOD TALU AM EIN GWASANAETHAU NI?

Does dim tâl am ddefnyddio'n gwasanaethau ni (heblaw am y tâl tanysgrifio priodol).

5. PWY SY'N EIN RHEOLEIDDIO NI?

Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol sy'n awdurdodi ac yn rheoleiddio'r Welsh Hospitals & Health Services Association (dan enw masnachol WHA). Ein rhif cofrestredig FSA yw 202605.

Cynlluniau arian parod ar gyfer iechyd yw'n maes busnes cymeradwy ni.

Gallwch wirio'r manylion hyn ar gofrestr yr FSA, trwy fynd i'r wefan www.fsa.gov.uk/register neu drwy ffonio'r FSA ar 0845 606 1234.

6. OES GENNYCH CHI GŴYN YN EIN HERBYN?

Os ydych chi am gwyno yn ein herbyn, cysylltwch â ni naill ai trwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr, Welsh Hospitals & Health Services Association, 60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG neu ffonio 029 2048 5461.

Os na allwch chi ddatrys eich cwyn gyda ni, fe allwch chi gyfeirio'r mater at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

7. YDYN NI'N RHAN O GYNLLUN IAWNDAL Y GWASANAETHAU ARIANNOL (FSCS)?

Ydyn. Fe allwch chi hawlio iawndal gan y cynllun os na allwn ni gwrdd â'ch gofynion chi. Mae hyn yn dibynnu ar y math o fusnes ac amgylchiadau'r hawliad.

Mae'r gwaith cynghori a threfnu yswiriant wedi'i yswirio ar gyfer 90% o'r hawliad, heb unrhyw gyfyngiad uchafswm.

Mae mwy o wybodaeth am drefniadau'r cynllun iawndal ar gael gan yr FSCS.

Nid yw'r crynodeb hwn yn cynnwys amodau a thelerau llawn y polisi. Gallwch ddarllen yr amodau a'r telerau llawn yn adran 'Taliadau ac Amodau Cyffredinol' y llyfryn hwn.

ENW'R YSWIRIWR

Welsh Hospitals & Health Services Association, neu'r enw masnachol WHA.

Y MATH O YSWIRIANT A SICRWYDD YSWIRIANT

Cynlluniau arian parod ar gyfer iechyd sy'n rhoi cymorth ariannol at gostau amrywiol gan gynnwys gofal optegol, triniaeth ddeintyddol ac ymweliadau ysbyty

NODWEDDION A THALIADAU ALLWEDDOL

Byddwch yn derbyn taliadau tuag at ofal optegol, triniaeth ddeintyddol, ffisiotherapi, osteopathi, ciropracteg, aciwbigo, triniaeth traed, ymgynghoriadau ac ymweliadau ysbyty fel claf allanol neu glaf mewnol.

EITHRIADAU NEU GYFYNGIADAU EITHRIADOL AC ANARFEROL

Ni fyddwch yn cael taliad tuag at gyflyrau meddygol a all fod gennych eisoes. Ni fyddwch yn cael taliad ar gyfer digwyddiadau sy'n codi yn ystod tri mis cyntaf eich aelodaeth (chwe mis os ydych chi'n talu gyda siec, arian parod neu archeb bost). Ni chewch daliad mamolaeth os fyddwch yn rhoi genedigaeth yn ystod 12 mis cyntaf eich aelodaeth.

Trowch i adrannau 11 ac 12, Taliadau ac Amodau Cyffredinol.

AELODAETH

Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru'n aelod, bydd eich aelodaeth yn parhau hyd nes y byddwch chi neu Welsh Hospitals & Health Services Association yn ei chanslo.

ADOLYGU

Efallai bydd angen i chi adolygu a diweddaru'ch sicrwydd yswiriant yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynnig digon o fanteision i chi.

CANSLO

Mae gennych hawl i newid eich meddwl a chanslo'r cytundeb hwn. Cofiwch wneud hyn cyn pen 14 diwrnod o ddyddiad llofnodi'ch ffurflen gofrestru.

HAWLIADAU

Rhaid cyflwyno'ch hawliadau ar ffurflen swyddogol i Welsh Hospitals & Health Services Association, 60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG. Ffôn 029 2048 5461.

CWYNION

Os ydych chi eisiau cwyno am unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, gallwch ysgrifennu atom yn Welsh Hospitals & Health Services Association, 60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG. Ffôn 029 2048 5461. Os na allwch chi ddatrys eich cwyn gyda ni, fe allwch chi gyfeirio'r mater at: Financial Ombudsman Service, South Key Plaza, 183 Marsh Wall, Llundain, E14 9SR.

IAWNDAL

Rydyn ni'n rhan o Gynllun Iawndal y Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Fe allech chi hawlio iawndal gan y cynllun pe baen ni yn y sefyllfa anghyffredin o fethu â chyflawni'n rhwymedigaethau. Mae hyn yn dibynnu ar y math o fusnes a'r amgylchiadau dan sylw. Mae gwybodaeth bellach am drefniadau'r cynllun iawndal ar gael gan yr FSCS.

DIFFINIADAU

"Byddwn, ni, ein"	Welsh Hospitals & Health Services Association, dan enw masnachol WHA.
"Chi, eich"	y sawl sy'n tanysgrifio'n rheolaidd i WHA.
"Aelodau Grŵp"	yr aelodau sy'n tanysgrifio trwy ddidynnu o'u cyflog neu bensiwn.
"Aelodau Uniongyrchol"	yr aelodau sy'n tanysgrifio'n uniongyrchol i WHA.

DATGANIAD GOFYNION AC ANGHENION

Mae'r cynnyrch hwn yn ateb gofynion ac anghenion pobl sydd am sicrhau bod ganddynt arian tuag at bob math o gostau gofal iechyd, nawr ac yn y dyfodol. Er enghraifft, costau gofal optegol, triniaeth ddeintyddol, ffisiotherapi, osteopathi, ceiropracteg, aciwbigo, triniaeth traed ac ymweliadau ysbyty.

AMODAU TALU

Byddwn yn talu'n ôl y gyfradd sy'n berthnasol i'ch tanysgrifiad a'ch aelodaeth chi yn ôl y tabl taliadau, cyn belled bod eich hawliad yn cydymffurfio â'r amodau priodol a nodir yn y paragraffau canlynol.

1. CLEIFION MEWNOL YSBYTY

1.1 Byddwn yn talu'r gyfradd ddyddiol am bob cyfnod 24 awr mae'r claf yn ei dreulio mewn ysbyty cydnabyddedig, wrth gael triniaeth fel claf mewnol.

1.2 Wrth gyfri'r taliad, rydyn ni'n cynnwys y dyddiad derbyn i'r ysbyty ond nid y dyddiad gadael.

1.3 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad derbyn i'r ysbyty.

1.4 Os yw'r claf yn mynd i'r ysbyty i gael triniaeth seiciatrig neu geriatrig, yna byddwn ond yn talu hanner yr uchafswm taliad a nodir yn y tabl taliadau.

1.5 Os yw'r claf yn marw tra ei fod yn yr ysbyty, a bod ei briod/phriod yn dal yn fyw, byddwn yn talu o leiaf deg diwrnod o daliad claf mewnol – yn amodol ar yr uchafswm a nodir ym mharagraff 1.3 yr amodau.

1.6 Os yw'r claf yn aros yn yr ysbyty yn barhaus am dros ddwy flynedd, a'i fod eisoes wedi cael yr uchafswm taliad claf mewnol unwaith, ni fyddwn yn talu mwy o'r taliad claf mewnol oni bai bod y claf yn cael ei ryddhau o'r ysbyty ac yna'n cael ei ailddderbyn yno mewn perthynas â chyflwr meddygol gwahanol.

1.7 Os oes rhaid i riant aros gyda phlentyn o dan 16 sydd wedi'i dderbyn i'r ysbyty, byddwn yn talu'r taliad claf mewnol i blant a hefyd cyfradd ddyddiol taliad claf mewnol i oedolion i un rhiant yn unig, am bob 24 awr y mae'n cadw cwmni i'r plentyn. Rhaid cael cadarnhad ysgrifenedig gan awdurdodau'r ysbyty o'r cyfnod y mae'r rhiant yn gwmni i'r plentyn, i gyd-fynd â'r hawliad.

2. CLEIFION ALLANOL YSBYTY

2.1 Byddwn yn talu'r gyfradd os yw'r claf wedi bod yn yr ysbyty fel claf allanol neu glaf dydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, o leiaf 4 gwaith mewn cyfnod parhaus o chwe mis.

2.2 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad derbyn i'r ysbyty.

2.3 Ni fyddwn yn talu am apwyntiadau cleifion allanol neu gleifion dydd sy'n ymwneud â beichiogrwydd.

2.4 Ni fyddwn yn talu am apwyntiadau cleifion allanol neu gleifion dydd sy'n ymwneud â chyflyrau seiciatrig neu geriatrig.

3. MAMOLAETH

3.1 Byddwn yn talu'r gyfradd famolaeth pan fo plentyn yn cael ei eni yn yr ysbyty neu gartref.

3.2 Mae'r taliad mamolaeth a nodir yn y tabl taliadau yn cynnwys treulio hyd at saith diwrnod yn yr ysbyty, cyn neu ar ôl yr enedigaeth. Os yw'r fam yn yr ysbyty am fwy na saith diwrnod, yna o'r wythfed diwrnod ymlaen, byddwn yn talu'r gyfradd claf mewnol am bob 24 awr y mae'n ei threulio yn yr ysbyty, hyd at uchafswm taliad cleifion mewnol.

3.3 Byddwn ond yn rhoi taliad mamolaeth i un rhiant.

3.4 Byddwn yn talu'r taliad claf mewnol i blant ar y cyfraddau a nodir yn y tabl taliadau os yw'r plentyn yn aros yn yr ysbyty fel claf mewnol ar ôl i'r fam adael yr ysbyty. Byddwn yn cyfri'r taliad o'r diwrnod y mae'r fam yn gadael yr ysbyty.

3.5 Ni fyddwn yn talu'r gyfradd claf mewnol i blant am y cyfnod sy'n cychwyn o'r dyddiad geni tra bo'r fam yn dal yn yr un ysbyty.

parhau ar dudalen 8

WHA TALIADAU AC AMODAU CYFFREDINOL

Cynlluniau personol	Personol 145	Personol 235	Personol 325	Cynllun partneriaid dros dro	
Cynlluniau partneriaid	Partneriaid 290	Partneriaid 470	Partneriaid 650	Partneriaid 145	Partneriaid 325
Taliadau oedolion		Taliadau – uchafswm taliadau mewn cyfnod o ddwy flynedd			
Deintyddol	**£80**	**£125**	**£175**	**£50**	**£100**
Optegol	**£80**	**£125**	**£175**	**£50**	**£100**
Ffisiotherapi	**£150**	**£200**	**£250**	**£75**	**£125**
Osteopathi	**£150**	**£200**	**£250**	**£75**	**£125**
Ceiropracteg	**£150**	**£200**	**£250**	**£75**	**£125**
Acibiwgo	**£150**	**£200**	**£250**	**£75**	**£125**
Triniaeth traed	**£75**	**£100**	**£125**	**£50**	**£75**
Aelodau grŵp - cleifion mewnol	**£1,620** **£18/y dydd**	**£2,160** **£24/y dydd**	**£3,150** **£35/y dydd**	**£990** **£11/y dydd**	**£1,890** **£21/y dydd**
Aelodau uniongyrchol - cleifion mewnol	**£1,620** **£18/y dydd**	**£2,160** **£24/y dydd**	**£3,150** **£35/y dydd**	**£810** **£9/y dydd**	**£1,620** **£18/y dydd**
Cleifion allanol	**£50**	**£70**	**£90**	**£30**	**£50**
Ymgynghoriad	**£200**	**£300**	**£400**	**£100**	**£200**
Mamolaeth	**£120**	**£175**	**£225**	**£110**	**£200**
Damwain bersonol	Amh	**£10,000***	**£10,000***	Amh	**£10,000***

***** Mae'r symiau hyn ar gyfer marwolaeth yn sgil damwain

Taliadau plant		Taliadau – uchafswm taliadau mewn cyfnod o ddwy flynedd, am bob plentyn dan 18 oed			
Claf mewnol	**£630** **£7/y dydd**	**£900** **£10/y dydd**	**£1,170** **£13/y dydd**	**£630** **£7/y dydd**	**£1,170** **£13/y dydd**
Claf allanol	**£50**	**£70**	**£90**	**£30**	**£50**
Ymgynghoriad	**£100**	**£150**	**£200**	**£50**	**£100**

parhad o dudalen 5

4. GWASANAETH CARTREF GWELLA

4.1 Gallwn drefnu lle mewn Cartref Gwella os yw meddyg y claf yn argymell hynny fel modd o'i helpu i wella'n gynt yn sgil salwch neu anaf. Gallwn drefnu hyn dim ond os yw'r claf wedi treulio o leiaf 14 diwrnod parhaus yn yr ysbyty, yn ystod y tri mis cyn cyflwyno cais am y gwasanaeth hwn. Ar ôl i ni drefnu cartref gwella ar gyfer y claf, byddwn ond yn trefnu lle arall i'r un claf ar ôl i'r cyfnod tair blynedd ddod i ben.

4.2 Ni fyddwn yn talu unrhyw gostau ychwanegol y claf er mwyn mynd i gartref gofal, preswyl, nyrsio neu seibiant.

5. OPTEGOL

5.1 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm costau a gafwyd ac a dalwyd tuag at sbectol, lensys neu lensys cyffwrdd newydd wedi'u rhagnodi gan ymarferydd optegol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

5.2 Byddwn yn talu'r uchafswm a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o ddyddiad cyflenwi'r sbectol, lensys neu'r lensys cyffwrdd.

5.3 Efallai y byddwn ni'n didynnu gwerth unrhyw daleb y GIG o'r cyfanswm costau wrth gyfrif y taliad dyledus.

5.4 Ni fyddwn yn talu am unrhyw gynlluniau gofal optegol, prynu hylif glanhau lensys cyffwrdd, gwaith trwsio neu gyflenwi fframiau sbectol newydd yn unig.

6. DEINTYDDOL

6.1 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm am gostau a gafwyd ac a dalwyd am driniaeth gan ymarferydd deintyddol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

6.2 Byddwn yn talu'r uchafswm a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad sydd ar y dderbynneb a gyflwynwyd.

6.3 Ni fyddwn yn talu am daliadau uniongyrchol i dechnegydd deintyddol.

6.4 Ni fyddwn yn talu am daliadau rheolaidd tuag at unrhyw gynllun cynnal deintyddol, fel Denplan.

7. TALIAD DAMWAIN BERSONOL

7.1 Byddwn yn yswirio tanysgrifwyr i rai cynlluniau ar gyfer marwolaeth, anabledd neu anafiadau yn sgil damwain. Byddwn yn anfon manylion llawn am y taliad hwn ar gais.

8. TRINIAETH GYFLENWOL

8.1 Mae triniaethau cyflenwol yn cynnwys Ffisiotherapi, Osteopathi, Aciwbigo, Ciropracteg a Thriniaeth traed.

8.2 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm am 75% o'r costau a gafwyd ac a dalwyd am driniaeth gan ymarferydd sydd wedi cofrestru neu gymhwyso'n briodol. Dylai cleifion sicrhau bod gan yr ymarferydd y cymwysterau a'r sicrwydd yswiriant priodol.

8.3 Byddwn yn talu'r uchafswm priodol a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad sydd ar y dderbynneb a gyflwynwyd.

8.4 Byddwn ond yn talu am driniaeth a gafwyd oherwydd salwch neu anaf, neu i leddfu poen.

9. YMGYNGHORIAD ARBENIGOL

9.1 Byddwn yn talu hyd at yr uchafswm a nodir yn y tabl taliadau am gostau a gafwyd ac a dalwyd am sesiwn ymgynghori cyntaf ynghylch cyflwr meddygol neu lawfeddygol, a hynny gydag arbenigwr sy'n dal swydd meddyg ymgynghorol gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol – gan gynnwys unrhyw gostau am belydr-x neu brofion angenrheidiol fel rhan o'r ymgynghoriad cyntaf.

9.2 Byddwn yn talu'r uchafswm a nodir yn y tabl taliadau unwaith bob dwy flynedd. Mae'r cyfnod dwy flynedd yn dechrau o'r dyddiad sydd ar y dderbynneb a gyflwynwyd.

WHA TALIADAU AC AMODAU CYFFREDINOL

9.3 Ni fyddwn yn talu am ymgynghoriadau dilynol, ymgynghoriadau ar gyfer materion pensiwn, yswiriant neu ymfudo, camau cyfreithiol neu weithredu diwydiannol, archwiliadau meddygol, mamolaeth, cynllunio teulu, triniaeth gosmetig neu sgrinio iechyd.

9.4 Ni fyddwn yn talu am ffioedd pigiadau neu unrhyw driniaeth.

9.5 Ni fyddwn yn talu'r gyfradd claf mewnol am apwyntiadau sy'n gymwys am daliad ymgynghoriad arbenigol.

AMODAU CYFFREDINOL

10. AELODAETH

10.1 Pan fyddwch chi'n cofrestru neu'n cynyddu'ch tanysgrifiadau, rhaid i chi fod o dan 65 oed. Os ydych chi'n cofrestru fel aelod o'r cynllun Partneriaid, neu os ydych chi'n aelod o'r cynllun Partneriaid ac eisiau cynyddu'ch tanysgrifiadau, rhaid i'ch partner fod o dan 65 oed hefyd.

10.2 Mae aelodaeth Personol yn yswirio'r tanysgrifiwr ar gyfer yr holl daliadau, ac unrhyw blant o dan 18 oed sy'n ddibynyddion am driniaethau ysbyty fel cleifion mewnol ac allanol, a chyfraddau arbennig o'r taliadau ymgynghoriad arbenigol.

10.3 Mae aelodaeth Partneriaid yn yswirio'r tanysgrifiwr a'i briod/phriod ar gyfer yr holl daliadau, ac unrhyw blant sy'n ddibynyddion am driniaethau ysbyty fel cleifion mewnol ac allanol, a chyfraddau arbennig o'r taliadau ymgynghoriad arbenigol.

10.4 Gall tanysgrifwyr sengl ddewis ymuno a'r cynllun Partneriaid os ydynt yn enwebu partner i'w ystyried fel ei briod/phriod. Ystyr partner yw'r sawl rydych chi'n briod ag ef/hi, neu'r sawl sy'n cyd-fyw a chi fel petaech chi'n briod. Rhaid cofrestru enw llawn eich partner gyda ni cyn cyflwyno hawliad, ac ni chewch chi hawlio ar gyfer mwy nag un partner.

10.5 Os yw'r ddau bartner yn talu tanysgrifiad dilys, byddant yn cael eu hystyried fel aelodau o'r cynllun Personol.

10.6 Rydyn ni'n cadw'r hawl i gyflwyno amodau arbennig ar gyfer rhai dewisiadau aelodaeth, neu wrthod rhai dewisiadau aelodaeth.

11. HAWLIADAU

11.1 Rhaid i chi gyflwyno'ch hawliad ar ffurflen hawlio taliad sydd wedi'i llenwi a'i hardystio'n gywir. Gallwch gael ffurflen gan eich cynrychiolwyr grŵp, swyddfeydd cyflog, pensiwn, personél a lles, neu o swyddfa WHA.

11.2 Dylai Aelodau Uniongyrchol gael ffurflen hawlio taliadau o swyddfa WHA.

11.3 Ni fyddwn yn talu'r taliad os yw dyddiad y driniaeth neu'r gwasanaeth a gafwyd, neu ddyddiad rhyddhau'r claf mewnol o'r ysbyty, neu'r pedwerydd tro i'r claf fynychu'r ysbyty, dros chwe mis cyn dyddiad cyflwyno'r hawliad i'n swyddfa ni yng Nghaerdydd.

11.4 Ni fyddwn yn talu am hawliadau sy'n ymwneud chyflwr meddygol oedd yn bodoli wrth i chi gofrestru. Ni fyddwn yn talu ar gyfradd uwch os oedd y cyflwr meddygol yn bodoli pan gynyddwyd y tanysgrifiadau. Er mwyn asesu os yw rhywun yn gymwys i gael taliad, rydyn ni'n cadw'r hawl i ofyn i'r claf gyflwyno rhagor o wybodaeth am unrhyw gyflwr meddygol gan ei feddyg teulu.

11.5 Byddwn yn ystyried eich hawliad yn unol â graddfa ac amodau'r taliadau oedd yn berthnasol ar ddiwrnod cychwyn y driniaeth neu ar y diwrnod y cafwyd y gwasanaeth, fel sy'n briodol.

1.1.6 Wrth gyfrif yr uchafswm i'w dalu, rydyn ni'n ystyried yr holl daliadau perthnasol a dalwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn dyddiad cychwyn y driniaeth neu'r dyddiad y derbyniwyd y gwasanaeth.

11.7 Ni fyddwn yn talu am driniaeth neu wasanaethau a dderbyniwyd neu sy'n dechrau cyn y dyddiad y cofrestrodd y tanysgrifiwr â ni. Ni fyddwn yn talu am arhosiad ysbyty neu achos o fynychu ysbyty a ddigwyddodd neu a gychwynnodd cyn y dyddiad y cofrestrodd y tanysgrifiwr â ni.

11.8 Ni fyddwn yn talu am unrhyw salwch neu anafiadau a achoswyd gan y claf neu a achoswyd gan derfysg, helynt sifil, terfysgaeth neu ryfel.

11.9 Byddwn eisiau gweld y dderbynneb wreiddiol â'r dyddiad arni, sy'n dangos enw'r claf a'r gost ar gyfer hawlio taliadau optegol, deintyddol, cyflenwol, ac ymgynghoriad meddygol. Ni fyddwn yn derbyn derbynebau neu dystysgrifau wedi'u llungopïo neu eu newid, neu dderbynebau neu dystysgrifau sydd â chydenwau arnynt. Rhaid i chi dalu am unrhyw driniaeth neu wasanaeth cyn

cyflwyno hawliad. Ni fyddwn yn talu'r ymarferwyr yn uniongyrchol.

12. CYFNODAU CYMHWYSO

12.1 Pan fyddwch chi'n cofrestru fel tanysgrifiwr neu'n cynyddu'ch tanysgrifiadau, bydd rhaid i chi dreulio cyfnod cymhwyso am daliadau. Mae'r cyfnodau cymhwyso yn berthnasol i bawb sydd wedi yswirio am daliadau, boed yn cofrestru neu'n cynyddu tanysgrifiadau, oni bai y cytunwyd ar drefniadau arbennig. Mae'r cyfnodau cymhwyso hefyd yn berthnasol i bartneriaid a phlant sy'n ddibynyddion.

12.2 Tri mis yw'r cyfnod cymhwyso ar gyfer Aelodau Grŵp ac Aelodau Uniongyrchol sy'n talu trwy ddebyd uniongyrchol – a hynny ar gyfer pob taliad heblaw taliad mamolaeth.

12.3 Chwe mis yw'r cyfnod cymhwyso ar gyfer yr holl aelodau eraill – pob taliad heblaw taliad mamolaeth.

12.4 12 mis yw'r cyfnod cymhwyso ar gyfer taliadau mamolaeth.

12.5 Nid oes cyfnod cymhwyso os oes angen mynd i'r ysbyty yn dilyn damwain.

12.6 Mae'r cyfnodau cymhwyso yn dechrau ar y dyddiad cofrestru neu ar ddyddiad cynyddu'r tanysgrifiadau. Nid yw hawliadau am driniaeth neu wasanaethau a gafwyd cyn, neu sy'n dechrau cyn i'r cyfnod cymhwyso priodol ddod i ben, yn gymwys am daliad. Nid yw tanysgrifiadau a gynyddwyd yn gymwys am gyfradd uwch o'r taliad.

13. TANYSGRIFIADAU

13.1 Rhaid i chi dalu'r gyfradd ddilys o'ch tanysgrifiad yn barhaus. Ni ellir ad-dalu tanysgrifiadau'r gorffennol. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn talu'r tanysgrifiadau cywir ac yn rheolaidd. Cynllun aelodaeth parhaus yw hwn cyn belled â'ch bod yn talu'r swm cywir ac yn ddigon aml. Fe allwch chi ganslo'ch aelodaeth trwy roi wythnos o rybudd ysgrifenedig i ni. Os byddwch chi'n canslo, byddwn yn ad-dalu unrhyw danysgrifiadau a dalwyd ymlaen llawn gennych ar gyfer y cyfnod wedi'r dyddiad canslo.

13.2 Rhaid eich bod wedi talu'ch tanysgrifiad diweddaraf cyn i ni ystyried unrhyw hawliad. Os nad ydych chi wedi talu'ch tanysgrifiad ers dros dri mis am resymau eraill heblaw salwch neu ddiswyddiad, byddwn yn terfynu'ch tanysgrifiad ac ni fyddwch yn gallu hawlio taliad mwyach. Fe wnawn ein gorau i ddweud wrthych nad ydym yn derbyn eich tanysgrifiadau mwyach, er nad oes gorfodaeth arnom i wneud hynny.

13.3 Os ydych chi'n methu talu'ch tanysgrifiadau oherwydd salwch (heblaw mamolaeth) neu ddiswyddiad, ni fyddwn yn terfynu'ch aelodaeth nes eich bod heb dalu am dros 12 mis. Er hynny, dylech wneud trefniadau i dalu'r tanysgrifiadau i ni cyn gynted â phosibl. Rhaid i chi dalu pob arian tanysgrifiad sy'n ddyledus i ni cyn y gallwch hawlio taliad gennym.

14. CYFFREDINOL

14.1 Pan fyddwch chi'n talu tanysgrifiad dilys i ni, byddwch yn destun y Taliadau ac Amodau Cyffredinol sydd mewn grym. Mae copïau ohonynt ar gael o'n swyddfa yng Nghaerdydd.

14.2 Fe allen ni newid y cyfraddau tanysgrifio a'r taliadau ac amodau cyffredinol. Os wnawn ni hynny, byddwn yn rhoi mis o rybudd i chi drwy'r post, i'ch cyfeiriad sydd yn ein cofnodion.

14.3 Rydyn ni'n cadw'r hawl i gyflwyno amodau arbennig ynglŷn â'r aelodaeth, neu wrthod cais am aelodaeth. Rydyn ni hefyd yn cadw'r hawl i derfynu'r aelodaeth trwy roi mis o rybudd ysgrifenedig.

14.4 Mae plant dan 18 oed wedi'u cynnwys yn nhanysgrifiadau un rhiant, gyda chyfraddau arbennig tuag at daliadau claf mewnol, claf allanol, a thaliad ymgynghoriad arbenigol. Gellir cynnwys plant o dan 16 oed mewn taliadau oedolion cyn belled â'ch bod yn talu'r tanysgrifiad priodol. Ni fydd taliadau plentyn yn berthnasol pe gwneir hyn.

WHA TALIADAU AC AMODAU CYFFREDINOL

14.5 Mae'r taliadau hyn ar gyfer derbyn triniaeth a gwasanaethau mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig. Mae taliadau claf mewnol a thaliadau claf allanol hefyd yn berthnasol ar gyfer triniaeth frys yn ystod absenoldeb dros dro mewn gwlad dramor.

14.6 Ni fyddwn yn talu am gostau triniaeth mewn ysbyty preifat, costau presgripsiwn nag offer llawfeddygol.

14.7 Ni fyddwn yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n ymwneud â chwblhau'r ffurflen hawlio taliadau.

15. CWYNION

15.1 Os hoffech chi gwyno am unrhyw agwedd ar ein gwasanaeth, ffoniwch ni ar 029 2048 5461 neu ysgrifennwch i: Welsh Hospitals & Health Services Association, 60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG.

15.2 Os nad oes modd datrys cwynion, gallwch eu cyfeirio at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

NODIADAU CYFFREDINOL

A. Byddwn yn anfon taliadau atoch trwy siec wedi ei chroesi, am resymau diogelwch. Ni fyddwn yn anfon taliad am lai na £1.00.

B. Ar ôl i chi ymaelodi â ni, gallwch barhau i fod yn aelod hyd at unrhyw oedran.

C. Mae eich tanysgrifiad yn cynnwys Treth Premiwm Yswiriant yn ôl y gyfradd berthnasol.

D. Rydyn ni'n cadw'r hawl i adennill unrhyw ordaliadau a dalwyd i chi, o unrhyw daliadau sy'n ddyledus i chi yn y dyfodol.

E. Er mwyn diogelu ein holl aelodau, byddwn bob amser yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn rhywun sy'n cyflwyno hawliad anonest, ffug neu dwyllodrus.

Diwygiwyd 1 Ionawr 2005

WHA
yw enw masnachol Welsh Hospitals & Health Services Association,
cwmni cyfyngedig sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru. Rhif 515135.

Welsh Hospitals & Health Services Association
60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG
Ffôn 029 2048 5461
e-bost mail@whahealthcare.co.uk

Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

TALIADAU AC AMODAU CYFFREDINOL

CYFRADDAU TANYSGRIFIO

	wythnosol	misol	blynyddol
Personol 145	£1.45	£6.28	£75.40
Personol 235	£2.35	£10.18	£122.20
Personol 325	£3.25	£14.08	£169.00
Partneriaid 290	£2.90	£12.56	£150.80
Partneriaid 470	£4.70	£20.36	£244.40
Partneriaid 650	£6.50	£28.16	£338.00
Partneriaid 145*	£1.45	£6.28	£75.40
Partneriaid 325*	£3.25	£14.08	£169.00

*Ddim ar gael i aelodau newydd nac aelodau cyfredol sy'n cynyddu tanysgrifiadau.

WHA yw enw masnachol Welsh Hospitals & Health Services Association
60 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0YG
Ffôn 029 2048 5461
Cwmni cyfyngedig wedi'i gofrestru yng Nghymru. Rhif 515135

W31P-029/07